

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWYD AR NOS
FAWRTH 13EG O IONAWR 2015 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R
GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Siân Davies (Cadeirydd) Medwyn Jones, Mike Denman, Gwyn Howatson, Clwyd Thomas, Deryl Roberts, Brynle Lloyd, Ian Hession a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Dewi Roberts a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry.

2. TRAFODAETH GYDAG BUDDUG WILLIAMS A GWENAN JONES O GRŴP
CYNEFIN.

Croesawodd y Cadeirydd i Buddug Williams a Gwenan Jones o Grŵp Cynefin. Pwrpas y drafodaeth oed ynglŷn ar ddarpar ddatblygiad ar dir y cyn Eglwys yn Rhewl a oedd mewn perchnogaeth Grŵp Cynefin. Gofynnir caniatâd Cyngor Cymuned Llanynys i wneud holiadau'r am anghenion tai pobl leol ar y safle'r cyn Eglwys yn Rhewl. Cytunwyd yr aelodau i'r Grŵp Cynefin wneud holiadur ac i gynnwys cymunedau cyfagos yn yr holiadur. Diolchwyd y Cadeirydd i Buddug Williams a Gwenan Jones am fynychu'r cyfarfod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 11eg o Dachwedd 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych trwy law'r Cyngorydd Merfyn Parry bod sŵn y Clawr Twll yn siglo ar Ffordd Dinbych, Rhewl yn "within tolerance level".

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £10,171.00.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r Precept 2014/15 - £2,632.00.

C. Precept 2015/16 y Cyngor. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gadw;r Precept 2015/16 y Cyngor ar £24.00 y preswyl Treth y Cyngor sydd yn cynhyrchu incwm o £8,088.00.

6. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Newid swyddfa i breswyl yn Rhyd-y-Cilgwyn, Rhewl – dim gwrthwynebiad.

B. Newid amod 3 i adael sefydliadau eraill defnyddio'r safle saethu yn Graig-y-Ddwyart, Rhewl. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar y sylwadau canlynol:-

1. Nid mae'r mynediad y safle yn caniatáu ychwaneg o foduron.

2. Problem gyda'r llygred sŵn.

3. Nid fydd y sefydliadau o dan oruchwyliaeth.

4. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r gwrthwynebiad lleol i'r cais cynllunio.

7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd yr aelodau cynnig Swyddog Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru i fynychu'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

B. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cyngorydd Sir Merfyn Parry bod Cyngor Sir Ddinbych yn bwgwth cau Ysgol Gynradd Rhewl a fydd cyfnod o ymgynghori yn ystod misoedd Chwefror/Mawrth 2015.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

Derbyniwyd gwybodaeth bod yna ddau gafna ar Lwybr Clywedog Clwyd dal heb ei chodi. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc hysbysu'r Swyddog Mynediad Cyngor Sir Ddinbych.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 10fed o Fawrth 2015 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.